Teleofal Caerdydd
Gwasanaeth Ymateb a Wardeiniaid

Crogdlws My Amie

Beth yw'r Crogdlws My Amie?

Mae'r Crogdlws MyAmie yn fychan ac nid yw'n amlwg, mae wedi ei ddylunio er mwyn bod yn fwy cyfforddus ei wisgo ar gyfer ein cwsmeriaid. Gellir ei raglennu i gyd-fynd ag unedau Lifeline VI+, Lifeline VI, Connect a Connect+.

Y nod yw tawelu'ch meddwl a'ch sicrhau y cewch ymateb os oes argyfwng.

Beth yw Manteision Crogdlws My Amie?

- Mae 50% yn llai na'r crogdlws 'Amie' ac mae'r botwm yn fwy; mae hefyd yn ysgafnach
- Yn wahanol i grogdlysau eraill, gellir ei wisgo ar yr arddwrn, ac mae dewis o ddau faint gwahanol
- Bydd yn hysbysu'r Ganolfan Rheoli Teleofal pan mae'r batri'n isel
- Bydd y batri'n parhau am hyd at 7 blynedd ac mae'r ddyfais yn gwrthsefyll dŵr

CARDIFF
CAERDYDD

Gyda Chrogdlws MyAmie, gallwch anfon galwad larwm o'ch cartref neu o'r ardd. Gallwch wneud hyn trwy bwyso'r botwm mawr coch. Bydd y Crogdlws hefyd yn anfon signal radio (ar yr amledd larwm cymdeithasol penodedig) i uned gartref Lifeline a fydd wedyn yn anfon galwad at y Ganolfan Reoli.

Ar gyfer pwy mae'r Crogdlws?

- Pobl hŷn, cleifion neu bobl anabl
- Pobl sydd wedi eu rhyddhau o'r ysbyty
- Pobl sydd mewn perygl o ddioddef trais domestig, erledigaeth neu ladrata drwy ddwyn eu sylw
- Pobl sy'n byw mewn ardaloedd lle mae cyfradd uchel o drosedd
- Pobl o unrhyw oedran sy'n byw gartref ar eu pennau eu hunain

Cynnyrch Cysylltiedig...

Teleofal Caerdydd
Gwasanaeth Ymateb a Wardeiniaid